Hawdd ei Ddeall

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Eich gwasanaeth tân ac achub – Lle cywir, amser cywir, sgiliau cywir

## Adolygiad o'n gwasanaeth diogelwch brys

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o  '**Eich gwasanaeth tân ac achub – lle cywir, amser cywir, sgiliau cywir**'.

**Gorffennaf 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.




Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm**. yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 39** yn y brif ddogfen.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.northwalesfire.gov.wales/cy

**E-bost:** EmergencyCoverReview@northwalesfire.gov.wales

**Ffôn:** 07787 578 386

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma** ........ **2**

**Beth ydy'r ddogfen yma** ........ **4**

**Amdanom ni** ........ **8**

**Ein Nodau** ........ **10**

**Sut rydyn ni'n gweithio nawr** ........ **12**

**Heriau yn y Dyfodol** ........ **14**

**Stopio ac ymateb i risgiau gwahanol** ........ **17**

**Stopio ac amddiffyn** ........ **23**

**Ein dewisiadau ar gyfer y dyfodol** ........ **25**


**Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl** ........ **36**

**Beth fydd yn digwydd nesaf** ........ **38**

**Geiriau Anodd** ........ **39**

# Beth ydy'r ddogfen yma

Ni ydy **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**. Rydyn ni yn gyfrifol am **Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**.



Rydyn ni eisiau gwella ein gwasanaethau **diogelwch brys** yng Ngogledd Cymru.



Mae **dioglewch brys** yn meddwl bod staff ac adnoddau ar gael i ddelio ag argyfyngau fel tanau, damweiniau a llifogydd.

**Rydyn ni eisiau:**

- Darparu gwasanaeth gwell i bawb.
- Ymateb i bobl lle bynnag maen nhw'n byw neu pwy ydyn
- Darparu gwasanaethau brys teg i'n cymunedau gwahanol.



Rydyn ni eisiau gwneud hyn drwy reoli ein:

- **adnoddau** – pethau fel ein hamser, offer, cerbydau ac adeiladau
- **cyllideb** – ein harian
- a'r **staff** yn dda.



Mae'r ddogfen yma yn dweud wrthych chi  am:

- sut rydyn ni yn gweithio nawr
- a pha newidiadau rydyn ni'n gallu eu gwneud i wella ein gwasanaethau yn y dyfodol.





Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda phobl i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw. Rydyn ni wedi cael adborth gan:

- Ein staff
- Y Cyhoedd
- Aelodau Cynghorau
- Aelodau ein Hawdurdod Tân ac Achub
- **Grwpiau mewn perygl yn lleol** – pobl sydd efallai angen help a chefnogaeth i gadw'n ddiogel ac iach.




Fe wnaethon ni ddefnyddio'r adborth hwn i ddatblygu **3 opsiwn** ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau brys.



Rydych chi'n gallu darllen am yr opsiynau yma ar dudalennau 27 i 31.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am yr opsiynau yma os ydych chi yn byw neu'n gweithio yng Ngogledd Cymru. Fe fydd hyn yn ein helpu i benderfynu beth i'w wneud nesaf.




Darllenwch y ddogfen yma ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb ar wahân.



# Amdanom ni




**Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** wedi cael ei ffurfio ar 1 Ebrill 1996. Mae 28 o gynghorwyr o 6 awdurdod lleol Gogledd Cymru ar yr Awdurdod.



Rydyn ni yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru.



Rydyn ni yn gweithio i leihau nifer yr argyfyngau sydd yn cael eu hachosi gan danau, damweiniau a llifogydd.



Rydyn ni yn gweithio gyda'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru i stopio argyfyngau.




Rydyn ni yn gweithio mewn ysgolion i ddysgu plant am ddiogelwch.




Mae mwy o wybodaeth am beth rydyn ni yn ei wneud ar ein gwefan: [www.northwalesfire.gov.wales](http://www.northwalesfire.gov.wales)

# Am ein gwerthoedd

**Rydyn ni yn credu yn:**



**Ein pobl**– Rydyn ni yn gwneud yn siŵr bod ein staff yn cael eu gwerthfawrogi. Rydyn ni yn cefnogi ein staff i ddatblygu eu sgiliau.



**Ein cymunedau** - Y peth mwyaf pwysig i ni ydy bod ein cymunedau'n ddiogel ac yn iach.



**Amrywiaeth a chynhwysiant** – Rydyn ni eisiau i bobl o bob cefndir weithio i ni. Rydyn ni eisiau bod yn deg a chynnwys pawb yn y gwaith.



**Ein dysgu** - Rydyn ni eisiau bod y gorau ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni'n gallu gwneud hyn drwy gael adborth gan eraill, dysgu o brofiad, a datblygu ein sgiliau.


# Ein Nodau





Ym mis Mawrth 2021, fe wnaethon ni gyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021 i 2024. Mae'r cynllun yn cynnwys 7 **nod llesiant**.



Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud




Fe fyddwn ni  yn parhau i weithio i gyflawni'r 7 **nod llesiant**.



Fe fydd popeth  yn ein **cynllun corfforaethol** yn ein helpu i wneud beth mae'n ei ddweud yn y ddeddf o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Rydych chi'n gallu darllen mwy am Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol yma: [www.futuregenerations.wales](http://www.futuregenerations.wales)

## Ein nodau llesiant:

**Nod 1**: Gwella iechyd, diogelwch a **llesiant** pobl Gogledd Cymru.

**Nod 2**: Parhau i weithio gyda sefydliadau a gwasanaethau eraill i wneud Gogledd Cymru yn lle gwell i fyw ynddo.

**Nod 3**: Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym ni.

**Nod 4**: Parhau i weithio gydag eraill i gynllunio sut i gadw ein cymunedau'n fwy diogel.

**Nod 5**: Cael tîm staff cryf a medrus sy'n dda yn eu swyddi.

**Nod 6**: Llunio ffyrdd o ofalu am yr amgylchedd yn well.

**Nod 7**: Gwneud yn siŵr ein bod yn meddwl am **gynaliadwyedd** wrth wneud neu brynu pethau.

Mae **cynaliadwy'n** meddwl y bydd rhywbeth yn para am amser hir ac yn gwneud pethau mewn ffyrdd sydd ddim yn niweidio'r amgylchedd.

# Sut rydyn ni'n gweithio nawr



Dydy lleoliadau ein gorsafoedd tân a'r ffordd rydyn ni yn gweithio ddim wedi newid ers amser hir.



Mae gennym ni 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru.



Mae'r mathau o argyfyngau a'r risgiau y mae pobl yn eu wynebu wedi newid dros y blynyddoedd.




Ers 2008 rydyn ni yn delio ag argyfyngau fel tanau, damweiniau a llifogydd. A hefyd rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda phobl i atal argyfyngau.



Rydyn ni wedi gweithio'n galed fel bod llai o bobl yn cael eu hanafu neu eu lladd.

# Sut mae diffoddwyr tân yn gweithio ar draws Gogledd Cymru

1. Mae 36 o'n gorsafoedd tân yn cael eu rhedeg gyda diffoddwyr tân rhan amser neu ar alwad. Mae'n rhaid i ddiffoddwyr tân fod o fewn 5 munud i'w gorsaf dân tra ar ddyletswydd neu ar alwad fel eu bod nhw yn gallu ymateb i argyfyngau, gwneud hyfforddiant a dyletswyddau eraill.

2. Mae gennym ni ddiffoddwyr tân llawn amser ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi. Maen nhw yn gweithio system **dyletswydd criwio dydd**, gan ddarparu gwasanaeth o'r orsaf rhwng 12:00 p.m. a 10:00 p.m. ac maen nhw ar alwad y tu allan i'r oriau yma. Mae hyn yn meddwl bod gwasanaeth brys 24 awr o'r gorsafoedd yma. Mae diffoddwyr tân ar alwad yn y gorsafoedd tân yma hefyd.

3. Mae gennym ni ddiffoddwyr tân llawn amser yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. Mae staff yn y gorsafoedd yma yn gweithio shifftiau i ddarparu gwasanaeth brys bob amser. Mae diffoddwyr tân ar alwad yn y gorsafoedd tân yma hefyd.

4. Mae diffoddwyr tân llawn amser hefyd yn gweithio **System Dyletswydd Drwy'r Amser Gwledig**. Maen nhw yn gweithio shifftiau dydd gan symud o amgylch Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaeth lle bynnag y bo angen yn ein gorsafoedd galw.

# Heriau yn y Dyfodol



Mae mwy o danau gwyllt a llifogydd wedi digwydd oherwydd **newid yn yr hinsawdd**.

Mae **hinsawdd** yn meddwl tueddiadau tywydd tymor hir. Mae **newid yn yr hinsawdd** yn meddwl newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein aer a'n dŵr yn cynhesu.



Mae technoleg newydd fel paneli solar, cerbydau trydan a deunyddiau adeiladu newydd yn gallu fod yn risg i bobl a diffoddwyr tân.



Rydyn ni yn cael llawer mwy o alwadau achub pan fyddwn ni yn gweithio gyda gwasanaethau eraill. Mae'r rhain yn cael eu galw yn **alwadau gwasanaeth arbennig**.




Mae Llywodraeth Cymru eisiau i ni feddwl sut rydyn ni'n gallu cefnogi staff ambiwlans drwy ymateb i bobl ag **ataliad ar y galon. Ataliad ar  y galon** ydy pan fydd y galon yn sydyn yn stopio pwmpio gwaed i'r ymennydd ac organau eraill.



I wneud hyn i gyd, mae angen i ni fod yn barod.

## Pam mae angen i ni wneud newidiadau



Mae gennym ni **wasanaeth argyfwng gwarantedig** mewn 8 gorsaf dân yn unig yng Ngogledd Cymru.



Mewn ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru, rydyn ni yn dibynnu ar ddiffoddwyr tân rhan amser neu ar alwad.



Rydyn ni yn gweithio'n galed i gyflogi diffoddwyr tân newydd a chadw ein diffoddwyr tân presennol.



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod tîm ymateb mewn gwahanol ardaloedd ar draws Gogledd Cymru gyfan.



Fe ddylai'r newidiadau rydyn ni yn  eu gwneud fod yn werth yr arian sydd yn cael ei wario arnyn nhw.



Rydyn ni yn edrych ar gael canolfan hyfforddi. Mae hyfforddiant yn bwysig iawn i ddiffoddwyr tân:

- datblygu eu sgiliau
- diweddaru nhw ar dechnoleg newydd
- cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel
- paratoi diffoddwyr tân i ddelio â risgiau newydd a rhai presennol
- darparu ymateb o ansawdd uchel.




Rydyn ni'n gallu rhannu'r hyfforddiant brys gyda gwasanaethau eraill sydd yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gan ein pobl y sgiliau cywir.

# Stopio ac ymateb i risgiau gwahanol

## Tanau mewn tai



Rydyn ni wedi gweithio'n galed i leihau tanau mewn tai lle mae pobl yn cael eu hanafu neu eu lladd.



Rydyn ni yn cynnal archwiliadau diogelwch i ddarparu diogelwch tân mewn cartrefi.



Rydyn ni'n rhoi larymau mwg mewn tai.



Mae'r rhan fwyaf o danau yn y cartref yn dechrau yn y gegin. Mae hyn yn gallu achosi niwed neu niwed difrifol.




Rydyn ni yn gweithio gyda phobl i hyrwyddo ffyrdd o gadw'n ddiogel.




Mae mwy o wybodaeth am ddiogelwch tân mewn cartrefi ar ein gwefan: [www.northwalesfire.gov.wales](http://www.northwalesfire.gov.wales).



Ers 2013, mae system chwistrellu tân yn cael ei ffitio ym mhob cartref newydd yng Nghymru. Mae wedi achub bywydau ac wedi stopio anafiadau.



Mae systemau larwm yn helpu pobl hŷn a phobl sydd mewn perygl mewn cartrefi.




Mae larymau mwg yn gallu rhoi rhybudd cynnar sy'n rhoi amser i bobl fynd allan a deialu 999.



Mae cofnodion yn dangos, yn y flwyddyn 2022 i 2023, nad oedd unrhyw farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru. Mae'n rhaid i ni barhau i weithio i gadw y lefel yma o ddiogelwch.

# Damweiniau ffordd



Rydyn ni yn gweithio gyda sefydliadau gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd.




Rydyn ni yn hyrwyddo 5 peth pwysig i'w gwneud pan fyddwch chi yn gyrru:

- Peidiwch ag yfed alcohol a gyrru
- Gostwng eich cyflymder
- Gyrrwch yn ofalus
- Defnyddiwch wregys diogelwch
- Diffoddwch eich ffôn symudol




Yng Nghymru, mae gyrwyr o'r grŵp oedran 16 i 24 oed yn fwy tebygol o fod yn rhan o ddamweiniau ffordd.

# Delio gyda thanau gwyllt



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn gallu rwain at fwy o danau gwyllt.



Mae tanau gwyllt yn peryglu bywydau ac yn niweidio’r tir, eiddo, bywyd gwyllt a’r amgylchedd.




Roedd yn rhaid i ni ddelio ag 20 o danau gwyllt yng Ngogledd Cymru ym mis Mawrth ac Ebrill 2022.



Mae’n bwysig gweithio gyda’n gilydd i stopio’r tanau yma.



Rydyn ni yn gweithio gyda sefydliadau a gwasanaethau tân ac achub eraill i godi ymwybyddiaeth o’r difrod mae tanau gwyllt yn gallu ei achosi.



Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr lleol.



Mae’n effeithio ar gymunedau a busnesau lleol. Mae ffermwyr a busnesau yn gallu colli tir.



Mae rhoi tân gwyllt allan yn anodd iawn ac yn costio llawer o arian. Mae angen offer arbennig ac mae’n gallu rhoi diffoddwyr tân mewn perygl.



Rydyn ni yn canolbwyntio ar leihau nifer y tanau gwyllt a’u heffaith ar ein cymunedau, ein tir a’n bywyd gwyllt.



# Llifogydd



Mae mwy o lifogydd wedi bod yng Ngogledd Cymru oherwydd **newid hinsawdd**.




Fe wnaeth llawer o stormydd yn y DU effeithio ar Ogledd Cymru hefyd. Stormydd yn arwain at law trwm a rhybuddion llifogydd difrifol. Mae angen ymateb brys i hyn.



Yn ystod Storm Cristoph ym mis Ionawr 2021, fe wnaethon ni gael dros 200 o alwadau. Yr ardaloedd gwaethaf a gafodd eu heffeithio  oedd Rhuthun a Bangor-is-y-Coed. Roedd yn rhaid achub pobl o gartrefi. Cafodd canolfannau gorffwys eu hagor gyda rhybuddion llifogydd ar draws Gogledd Cymru.



Roedd swyddogion yn gweithio gyda'r gwasanaethau brys eraill ac awdurdodau lleol i gynllunio a pharatoi ar gyfer y llifogydd yma.



Rydyn ni eisiau newid y ffordd rydyn ni yn gweithio i ymateb i'r heriau y mae ein cymunedau yn eu wynebu oherwydd **newid yn yr hinsawdd**.

# Stopio ac amddiffyn



Rydyn ni yn gweithio'n galed i stopio tanau ac argyfyngau eraill.




Ein nod ydy stopio argyfyngau. Roedd llai o danau difrifol dros y 10 mlynedd diwethaf.



Yn 2022 i 2023, fe wnaeth ein staff gwblhau dros 18 mil o archwiliadau diogel ac iach da i helpu i stopio tanau yn y cartref.

**Rydych chi'n gallu cofrestru ar gyfer archwiliad iechyd a diogelwch am ddim drwy:**



**Testun**: Anfonwch eich manylion at 07507303678.

**Ffôn**: 0800 169 1234 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.



**Ffurflen ar-lein**: www.northwalesfire.gov.wales



Mae ein staff diogelwch tân yn gweithio gyda phobl a busnesau ar draws Gogledd Cymru i ddarparu cyngor a gwybodaeth.



Ein cyfrifoldeb ni ydy gwneud yn siŵr bod busnesau'n gwneud popeth i gadw pobl yn ddiogel. Dyma'r gyfraith.



# Ein dewisiadau ar gyfer y dyfodol



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn gallu bod yn y lle cywir, ar yr adeg cywir, gyda'r sgiliau cywir.




Fe wnaethon ni gael grwpiau ffocws, gweithdai a chyfarfodydd i gael adborth gan bobl.

Rydyn ni wedi cynnig 3 opsiwn:



- Beth sy'n bwysig i bobl.



- Beth fyddai'n gwella ein gwasanaethau diogelwch brys ar draws Gogledd Cymru.

## Pethau sydd yn bwysig i ni

**Gwasanaeth brys** - Sut rydyn ni yn ymateb i argyfyngau fel tanau, damweiniau a llifogydd.

**Y Gwasanaeth Amddiffyn a Stopio** - Cadw eich cartref a'ch busnes yn ddiogel. Fel bod llai o bobl yn cael eu hanafu neu eu lladd.

**Gwasanaethau mae pobl yn gallu eu fforddio** - Rhoi gwell gwasanaeth i bobl drwy arbed arian.

**Staff** - Sut mae unrhyw newidiadau rydyn ni y neu gwneud yn gallu effeithio ar staff yn y gwasanaeth.

**Gwasanaeth teg a chyfartal** - Darparu gwasanaeth teg a chyfartal i bawb yn y gymuned.

**Gwerth cymdeithasol** - Sut mae unrhyw newidiadau rydyn ni yn eu gwneud yn gallu effeithio ar ein cymunedau.




Mae'r 3 opsiwn yn meddwl newid y ffordd rydyn ni yn staffio rhai o'n gorsafoedd tân yn ystod y dydd, i wneud yn siŵr ein bod yn gallu rhoi ymateb gwell.

## Opsiwn 1



- Fe fydd Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl yn newid i **system criw dydd**. Mae diffoddwyr tân yn gweithio rhai oriau yn yr orsaf yn ystod y dydd ac maen nhw ar alwad yn ystod y nos i ddarparu ymateb 24 awr y dydd. Fe fydd y newid yma yn rhyddhau 28 o ddiffoddwyr tân.



- Fe fyddwn ni yn defnyddio ein **Diffoddwyr Tân System Dyletswydd Llawn Amser Gwledig** gyfredol (diffoddwyr tân sy'n gweithio o wahanol ardaloedd mewn fan), ac fe fydd y diffoddwyr tân rydyn ni yn eu rhyddhau o orsafoedd Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn cael **3 gorsaf newydd â staff dydd** yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau. Fe fydd diffoddwyr tân llawn amser yn cael eu lleoli yn y gorsafoedd yma yn ystod y dydd. Fe fydd y gorsafoedd yn cael eu gwarchod gan ddiffoddwyr tân ar alwad yn ystod y nos




- Fe fydd 2,148 yn rhagor o gartrefi yn cael ymateb o fewn 20 munud.



- Fe fydd 1740 o dai ychwanegol yn cael archwiliadau iechyd a diogelwch.




- Fe fyddwn ni yn gallu cael mwy o ymweliadau ysgolion, ymgyrchoedd diogelwch a digwyddiadau eraill mewn ardaloedd cefn gwlad.



- Efallai y byddwn ni yn cael cyfle i gyflogi diffoddwyr tân llawn amser yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd.



- Fe fydd yr opsiwn yma yn costio tua £171.02 y flwyddyn i bob cartref yng Ngogledd Cymru. Mae hyn £20.36 yn fwy na faint rydych chi'n ei dalu nawr.

# Opsiwn 2



- Newid gorsafoedd tân Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i **system dyletswydd staffio dydd** – fe fydd diffoddwyr tân wedi'u lleoli mewn gorsaf yn ystod y dydd ac yna'n mynd adref. Fe fydd diffoddwyr tân ar alwad yn gwasanaethu'r gorsafoedd hyn gyda'r nos.



- Tynnu 1 **offer tân** yng ngorsaf dân Wrecsam. Mae **offer tân** yn meddwl cerbyd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer diffodd tân. Fe fydden ni yn cadw 1 cerbyd ar gyfer diffoddwyr tân llawn amser ac 1 cerbyd ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad yn Wrecsam.



- Fe fyddwn ni yn defnyddio ein **Diffoddwyr Tân System Dyletswydd Llawn Amser Gwledig** cyfredol (diffoddwyr tân sy'n gweithio o wahanol ardaloedd mewn fan), ac fe fydd y diffoddwyr tân rydyn ni'n eu rhyddhau o orsafoedd Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam yn cael **3 gorsaf newydd â staff dydd** yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau. Fe fydd diffoddwyr tân llawn amser yn cael eu lleoli yn y gorsafoedd hyn yn y dydd. Fe fydd y gorsafoedd yn cael eu gwarchod gan ddiffoddwyr tân ar alwad yn ystod y nos



- Fe fydd 22 yn llai o ddiffoddwyr tân llawn amser.




- Fe fyddwn ni yn gallu arbed £1.1 miliwn.




- Fe fydd 321 yn rhagor o gartrefi yn cael ymateb o fewn 20 munud.



- Fe fydd 1,740 o dai ychwanegol yn cael archwiliadau diogel ac iach.




- Fe fyddwn ni yn gallu cael mwy o ymweliadau ysgolion, ymgyrchoedd diogelwch a digwyddiadau eraill mewn ardaloedd cefn gwlad.



- Efallai y byddwn ni yn cael gyfle i gyflogi diffoddwyr tân llawn amser yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd.



- Fe fydd yr opsiwn yma yn costio tua £167.29 y flwyddyn i bob cartref yng Ngogledd Cymru. Mae hyn £16.63 yn fwy na faint rydych chi'n ei dalu nawr.

# Opsiwn 3



- Fe fydd gorsafoedd tân Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i **system dyletswydd staffio dydd** – fe fydd diffoddwyr tân mewn gorsaf yn ystod y dydd ac yna'n mynd adref. Fe fydd diffoddwyr tân ar alwad yn gwasanaethu'r gorsafoedd hyn gyda'r nos.



- Tynnu 1 **offer tân** yng ngorsaf dân Wrecsam. Mae **offer tân** yn meddwl cerbyd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer diffodd tân. Fe fydden ni yn cadw 1 cerbyd ar gyfer diffoddwyr tân llawn amser ac 1 cerbyd ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad yn Wrecsam.



- Fe fyddwn ni  yn defnyddio ein **Diffoddwyr Tân System Dyletswydd Llawn Amser Gwledig** cyfredol (diffoddwyr tân sy'n gweithio o wahanol ardaloedd mewn fan), ac fe fydd y diffoddwyr tân rydyn ni yn eu rhyddhau o orsafoedd Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam yn cael **2 orsaf newydd â staff dydd** ym Mhorthmadog a Dolgellau. Fe fydd diffoddwyr tân llawn amser yn cael eu lleoli yn y gorsafoedd hyn yn ystod y dydd. Fe fydd y gorsafoedd yn cael eu gwarchod gan ddiffoddwyr tân ar alwad yn ystod y nos.



- Fe fydd 36 yn llai o ddiffoddwyr tân llawn amser.



- Cau 5 o orsafoedd ar alwad yn Abersoch, Biwmares, Cerrigydrudion, Conwy, a Llanberis.



- Fe fydd 38 yn llai o **ddiffoddwyr tân** ar alwad.




- Fe fyddwn yn gallu arbed £2.4 miliwn.




- Fe fydd 2,087 yn llai o gartrefi yn cael ymateb o fewn 20 munud.



- Fe fydd 1,160 o dai ychwanegol yn cael archwiliadau diogel ac iach.



- Fe fydd llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.



- Fe fydd llai o gyfleoedd i gyflogi staff yn y 5 ardal lle byddai gorsafoedd galwadau ar gau.



- Efallai y byddwn ni yn cael cyfle i gyflogi diffoddwyr tân llawn amser yng Ngwynedd.



- Fe fydd yr opsiwn yma  yn costio tua £162.88 y flwyddyn i bob cartref yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn £12.22 yn fwy na faint rydych chi’n ei dalu nawr.

# Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n ei feddwl




Anfonwch eich atebion i ni erbyn **12am hanner nos 22 Medi 2023**.




Rydych chi’n gallu ateb y cwestiynau ar-lein: [www.northwalesfire.gov.wales](http://www.northwalesfire.gov.wales).



Rydych chi’n gallu llenwi’r ffurflen ymateb a’i hanfon at: [EmergencyCoverReview@northwalesfire.llyw.cymru](mailto:EmergencyCoverReview@northwalesfire.llyw.cymru)



Rydych chi’n gallu llenwi’r ffurflen ymateb a’i hargraffu a’i phostio at:

**Rhadbost**


**ADOLYGIAD TAN/FIRE REVIEW**



Rydych chi’n gallu ffonio neu anfon neges destun i ni i rannu beth rydych chi’n feddwl ar **07787 578 386**.



Mae beth rydych chi'n feddwl yn bwysig i ni. Rydyn ni eisiau clywed gennych chi cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau terfynol am ddyfodol ein gwasanaethau.




Fe fyddwn ni yn cynnal digwyddiadau cymunedol i gasglu adborth. Rydych chi'n gallu bod yn rhan o'r digwyddiadau hyn yn bersonol neu ar-lein.




Mae rhagor o fanylion am yr holl ddigwyddiadau ar ein gwefan: www.northwalesfire.gov.wales.



Os nad ydych chi'n gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd, rydych chi'n gallu ein ffonio ar **07787 578 386**.



Os ydych chi'n aelod o grŵp cymunedol ac os ydych chi eisiau i ni ddod i siarad â'ch grŵp:

- Ffoniwch neu anfonwch neges destun i ni **07787 578 386**
- Neu anfonwch e-bost i ni: EmergencyCoverReview@ northwalesfire.gov.wales

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Fe fyddwn ni yn mynd trwy'r holl adborth rydyn ni yn ei gael.




Fe fyddwn ni yn defnyddio'r holl adborth, prawf a gwybodaeth i benderfynu beth i'w wneud.




Fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiad am beth mae pobl wedi'i ddweud. Fe fydd yr adroddiad ar gael ar ein gwefan: [www.northwalesfire.gov.wales](http://www.northwalesfire.gov.wales)



Fe fyddwn ni yn recordio'r cyfarfod penderfynu terfynol. Fe fyddwch chi yn gallu ei weld ar ein gwefan: [www.northwalesfire.gov.wales](http://www.northwalesfire.gov.wales)




Ar ôl i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud, fe fyddwn ni yn gwneud newidiadau i'n gwasanaethau mewn camau trwy ddilyn ein cynllun **Rheoli Risg**.

# Geiriau Anodd

### Cynaliadwy

Mae cynaliadwy'n meddwl y bydd rhywbeth yn para am amser hir ac yn gwneud pethau mewn ffyrdd sydd ddim yn niweidio'r amgylchedd.

### Newid hinsawdd

Mae hinsawdd yn meddwl tueddiadau tywydd tymor hir. Mae newid yn yr hinsawdd am newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein aer a'n dŵr yn cynhesu.

### Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud.

MEWN CYFYNGDER Y · GELWAIST